***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1733 (Cy. 236)

# CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU

## Gorchymyn Prentisiaethau (Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Medi 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *16 Hydref 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 10(1)(b) a (3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prentisiaethau (Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru) (Diwygio) 2015 a daw i rym ar 16 Hydref 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Prentisiaethau (Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru) 2013**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Prentisiaethau (Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru) 2013(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, yn lle'r geiriau "mae Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector" rhodder "mae'r Federation for Industry Sector Skills & Standards (Rhif Cwmni: SC175918)".

*Julie James*
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, o dan awdurdod y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

29 Medi 2015

(**1**) 2009 p. 22.
(**2**) 2013/1191 (Cy. 127).

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Prentisiaethau (Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru) 2013 drwy newid enw awdurdod ardystio Cymru o Gynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector i Ffederasiwn Sgiliau a Safonau'r Sector Diwydiant. Mae hyn yn cydnabod y newid yn enw cwmni cofrestredig y sefydliad hwn.